Senedd Cymru | Welsh Parliament
**Ymchwil y Senedd | Senedd Research**

# P-06-1459 Mae datblygiadau ffermydd gwynt yn debyg i foddi cymoedd Cymru a'r hen ddiwydiant llechi. Stopiwch nhw.

Y Pwyllgor Deisebau | 02 Rhagfyr 2024
Petitions Committee | 02 December 2024

Cyfeirnod: SR24/9547-3

**Rhif y Ddeiseb**: P-06-1459

**Teitl y ddeiseb**: Mae datblygiadau ffermydd gwynt yn debyg i foddi cymoedd Cymru a'r hen ddiwydiant llechi. Stopiwch nhw.

**Geiriad y ddeiseb**: Mae ecsbloetio bryniau gwyllt Cymru at ddefnydd cwmnïau cloddio glo enfawr a chwmnïau ynni eraill yn debyg i foddi cymoedd Cymru a diwydiannau llechi Fictoraidd.

Nid yw'r datblygiadau hyn yn cael eu caniatáu mewn rhannau cyfoethog o Loegr, ond mae'n rhaid i gymunedau tlotach Cymru ysgwyddo'r baich.

Ni ddylai newid hinsawdd fod yn esgus i dorri allan mawndir sy'n storio carbon ac arllwys miliynau o dunelli o goncrid i gynefinoedd gylfinirod a fflora a ffawna eraill sydd mewn perygl.

Yng ngogledd Cymru, bwriad RWE, cwmni cloddio glo enfawr o'r Almaen, yw datblygu Fferm Wynt Gaerwen, fyddai'n arwain at ddiffeithio mawn hynafol (Mynydd Mynyllod), sy'n gartref i lawer o rywogaethau mewn perygl, ac arllwys miliynau o dunelli o goncrit yno. Mae hyn yn digwydd ledled Cymru.

Rydym yn cydnabod bod newid hinsawdd yn fygythiad i'n planed, ond nid yw hyn yn esgus i niweidio cynefinoedd a bryniau gwyllt Cymru yn ddiwrthdro. Pan fydd y Cymry'n edrych yn ôl ar y datblygiadau di-droi'n-ôl hyn a'r bobl a oedd yn rhan o'r gwaith, rydym yn credu y byddant yn eu cymharu â boddi cymoedd Cymru a dinistrio'r mynyddoedd ar gyfer llechi.

Mae cwmnïau ynni yn gweld elw mawr mewn ffermydd gwynt a datblygiadau o'r fath ac nid ydynt yn eu hadeiladu er lles dynolryw. Maent yn eu hadeiladu i greu elw i gyfranddalwyr.

Byddwn yn edrych yn ôl ar y datblygiadau di-droi'n-ôl hyn sydd wedi dinistrio ein mynyddoedd ac yn gofyn pam na wnaeth y rhai mewn grym atal ein cefn gwlad rhag cael ei ecsbloetio. Mae angen i'r rhai sy'n ymwneud â hyn ystyried sut bydd hanes yn eu barnu. .

# 1. Cefndir a chamau gweithredu Llywodraeth Cymru

Mae gan Gymru ymrwymiad deddfwriaethol i gyflawni allyriadau sero net erbyn 2050, gyda thargedau interim ar gyfer 2030 (gostyngiad o 63%) a 2040 (gostyngiad o 89%).

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru gynllun Cymru Sero Net Cyllideb Garbon 2 (2021-25) ('y Cynllun Sero Net') yn 2021. Mae'n nodi sut y bydd Cymru'n cyrraedd ei hail gyllideb garbon (CG2), ac yn codi'r sylfeini ar gyfer Cyllideb Garbon 3 (CG3) a'r targed i leihau allyriadau erbyn 2030. Mae'r targedau a'r cyllidebau wedi'u crynhoi yn yr erthygl hon gan Ymchwil y Senedd ar y llwybr at allyriadau sero.

Ym mis Tachwedd 2023, wrth ymateb i ddeiseb debyg yn galw am foratoriwm ar ddatblygiadau ynni gwynt ar y tir, dywedodd y Gweinidog dros Newid Hinsawdd ar y pryd, , Julie James AS:

> Ynni gwynt, ynghyd ag ynni'r haul, yw'r dechnoleg fwyaf datblygedig, ac mae'n debygol mai'r rheini a fydd yn gwneud y cyfraniad mwyaf

> sylweddol at ein hanghenion ynni yn y tymor byr i'r tymor canolig. Rydyn ni'n rhagweld y bydd llawer o'r dechnoleg hon ar y môr, ond bydd angen inni gynhyrchu rhagor o ynni ar y tir.

## Polisi cynllunio

Amlinellir polisi cynllunio cenedlaethol LLywodraeth Cymnru yn nogfen Polisi Cynllunio Cymru (PCC), sy'n nodi

> Dylai'r system gynllunio sicrhau cymysgedd priodol o ddarpariaeth ynni sy'n cynyddu'r manteision i'n heconomi a'n cymunedau ac yn lleihau ffeithiau amgylcheddol a chymdeithasol yr un pryd. […]
>
> Mae manteision ynni adnewyddadwy a charbon isel fel rhan o'r ymrwymiad cyffredinol i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a diogelu'r cyflenwad ynni o bwys aruthrol.

O ran datblygiadau ynni gwynt ar raddfa fawr, dywed PCC 'Mae gan Gymru adnodd gwynt toreithiog ac, o ganlyniad, mae ynni gwynt yn rhan allweddol o gyflawni gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer cynhyrchu ynni adnewyddadwy yn y dyfodol'.

Amlinellir polisïau ar benderfynu ar geisiadau datblygu ynni gwynt yn Cymru'r Dyfodol - 'Fframwaith Datblygu Cenedlaethol' (FfDC) Llywodraeth Cymru.

Strategaeth genedlaethol 20-mlynedd yw Cymru'r Dyfodol sy'n nodi polisïau'r Llywodraeth ar ddatblygu a defnydd tir mewn cyd-destun gofodol. Cafodd ei gyhoeddi ym mis Chwefror 2021 ac mae ganddo statws 'cynllun datblygu'. Ystyr hyn yw bod yn rhaid gwneud penderfyniadau cynllunio yn unol â'r strategaeth. Mae'n eistedd ar frig hierarchiaeth polisi cynllunio ochr yn ochr â PCC.

Mae Cymru'r Dyfodol yn nodi nifer o 'Ardaloedd a Aseswyd Ymlaen Llaw ar gyfer Ynni Gwynt'. . Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi modelu'r effaith debygol ar y tirwedd yn yr ardaloedd hyn, ac wedi canfod y byddai'r ardaloedd dan sylw yn gallu cynnal datblygiadau mewn modd derbyniol. Mae hefyd wedi cyhoeddi'r manylion asesiad a ddefnyddir i nodi'r meysydd hyn.

Yn yr ardaloedd hyn, ceir rhagdybiaeth o blaid datblygiadau ynni gwynt ar raddfa fawr, fel yr amlinellir yn polisi 17 Cymru'r Dyfodol. Fodd bynnag, byddai unrhyw ddatblygiad posibl yn amodol ar nifer o feini prawf a nodir yn polisi 18 ac yn

cynnwys, ymhlith pethau eraill, meini prawf sy'n ymwneud â bioamrywiaeth a dynodiadau amgylcheddol.

Nid yw'r ardaloedd a aseswyd ymlaen llaw yn ceisio nodi safleoedd datblygu penodol (nac ychwaith yn atal datblygu posib mewn lleoliadau eraill), yn hytrach maent yn ardaloedd eang ac ni fydd pob un ohonynt yn addas i'w datblygu. Mae angen cynnal asesiadau mwy manwl fesul achos wrth i brosiectau penodol ddod gerbron.

### Y broses gydsynio

Mae rhai categoriau yn cael eu dosbarthu fel Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (DNS) ac yn cael eu cydsynio gan Weinidogion Cymru yn hytrach na'r awdurdod cynllunio lleol (ACLl).

Mae pob prosiect gwynt ar y tir sydd â chapasiti cynhyrchu disgwyliedig o dros 10MW yn cwympo o fewn y gyfundrefn datblygiad o arwyddocâd cenedlaethol ac yn cael eu penderfynu gan Weinidogion Cymru. Ceir rhagor o wybodaeth am ddatblygiadau o arwyddocâd cenedlaethol yng nghanllaw Ymchwil y Senedd. .

Fodd bynnag, ar ôl i *Ddeddf Seilwaith (Cymru) 2024* gael Cydsyniad Brenhinol, mae trefn gydsynio newydd a elwir yn Gydsyniad Seilwaith ar gyfer 'Prosiectau Seilwaith Sylweddol' yn cael ei sefydlu i ddisodli'r drefn DAC bresennol.

Mae'r Ddeddf yn newid y trothwy o ran cynhyrchu ynni ac yn golygu bydd prosiectau cynhyrchu ynni sydd rhwng 10MW a 49MW, sy'n cael eu cydsynio ar hyn o bryd gan Weinidogion Cymru o dan y drefn DAC, yn cael eu cydsynio gan awdurdodau cynllunio lleol yn y dyfodol. Bydd prosiectau gwynt ar y tir sydd dros 50MW yn cael eu cydsynio gan Weinidogion Cymru o hyd.

Mae Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar fanylion y drefn gydsynio newydd. ar hyn o bryd.

Mae Ymchwil y Senedd wedi cyhoeddi ystod o adnoddau sy'n rhoi rhagor o fanylion am y Ddeddf.

## 2. Camau gweithredu Senedd Cymru

Fel sydd wedi cael ei amlinellu, mae'r Pwyllgor Deisebau eisoes wedi ystyried deiseb debyg yn galw am foratoriwm ar ddatblygiadau gwynt ar y tir.

Mae datblygiadau ffermydd gwynt yn debyg i foddi cymoedd Cymru a’r hen ddiwydiant llechi. Stopiwch nhw.

Ar y pryd, cytunodd y Pwyllgor i gau'r ddeiseb ar y sail bod safbwynt Llywodraeth Cymru ar y mater yn glir.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw’r papurau briffio hyn yn cael eu diweddaru o reidrwydd na’u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.